# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 GORFFENNAF 2012** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2012** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ionawr 2012 hyd at 31 Mawrth 2012.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2012:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 18 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 7 |
| Adolygiadau Grant | 6 |
| Archwiliadau Dilyniant | 6 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2012, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Diogelwch TG mewn ysgolion | Addysg | Adnoddau | C | Atodiad 1 |
| Rheoli Prosiect Cynllun Trefniadaeth Ysgolion | Addysg | Ar draws yr adran | A | Atodiad 2 |
| Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru | Addysg | Consortiwm Addysg | B | Atodiad 3 |
| Allanoli Arlwyo Ysgolion - Atebolrwydd | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 4 |
| Canolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 5 |
| Ysgolion Cynradd - Llywodraethu | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 6 |
| Ysgolion Cynradd - Trefniadau Lleihau Baich Gwaith Athrawon | Addysg | Ysgolion | C | Atodiad 7 |
| Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | B | Atodiad 8 |
| Prif System Gyfrifo | Cyllid | Cyfrifeg | B | Atodiad 9 |
| Pensiynau - Adroddiad Blynyddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 10 |
| Systemau Trethiant - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 11 |
| Tai gyda Chefnogaeth | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 12 |
| Neuaddau Pentref - Cynllun Gweithredu | Economi a Chymuned | Ieuenctid | A | Atodiad 13 |
| Diogelwch Gwybodaeth | Gofal Cwsmer | Gwybodaeth | C | Atodiad 14 |
| System Rheoli Perthynas Cwsmer | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 15 |
| Comisiynu ar y Cyd gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | C | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth Papur | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | B | Atodiad 17 |
| Dethol Contractwyr - Amddiffyn yr Arfordir | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Ar draws yr adran | B | Atodiad 18 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Rheoli Contractau - Adfywio Ffisegol yng ngogledd Cymru** *(Rheoleiddio)*. Roedd hwn yn adolygiad o drefniadau rheoli'r gytundeb i ymgymryd â gwaith adnewyddu yng nghanol Bangor a Caernarfon. Mae gweinyddiaeth y grant wedi bod yn destun archwiliad ar wahân. Cynhaliwyd profion archwilio ar 21 rheolaeth fewnol, a gwelwyd fod rheolaethau mewnol da neu foddhaol yn bodoli yn 20 o'r meysydd hyn. Gan fod y proesiectau wedi eu hariannu'n rhannol gan y Grona Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF) drwy'r rhaglen Cydgyfeiriant, mae angen cadw'r anfonebau ar wahân yn yr Uned Daliadau oherwydd gofynion cadw. Gwelwyd nad oedd y dangosydd angenrheidiol yn cael ei ddefnyddio pan yn anfon cyfarwyddiadau i lawr i'r Uned Daliadau i dalu'r contractwr, sy'n golygu nad oedd yr uned honno felly yn ymwybodol o'r angen i'w cadw ar wahân gyda gweddill yr anfondebau a delir trwy grantiau Ewropeaidd.

- **Prydlondeb Taliadau** *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)*. Roedd cynllun Archwilio Mewnol 2011/12 yn cynnwys archwiliad dan y testun "Prydlondeb Taliadau", gyda'r bwriad o gynnal adolygiadau mewn meysydd penodol lle roedd ystadegau'r Uned Taliadau yn awgrymu fod oedi sylweddol – tu hwnt i ddisgwyliadau statudol – cyn bod anfonebau (lle nad oes dadl yn eu cylch) yn cael eu talu. Daeth i sylw Archwilio Mewnol fod prosesu dogfennau talu ar gyfer un cyflwenwr wedi cymryd cyfnod annerbyniol o amser i'r proesesu o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel canlyniad, penderfynwyd defnyddio'r adnoddau oedd wedi eu clustnodi ar gyfer yr archwiliad "Prydlondeb Taliadau" er mwyn ymchwilio i gefndir yr achos yma, a hefyd i wirio os oedd y digwyddiad yma yn un gwirioneddol eithriadol o fewn systemau gweinyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu'n bosib cadarnhau fod oedi sylweddol mewn prosesu nodyn credyd i un cyflenwr wedi achosi colled ariannol i'r Cyngor oherwydd i'r cwmni fynd i ddwylo'r gweinyddwyr cyn i'r nodyn credyd gael ei brosesu,

a sawl cyfle i wneud hynny wedi ei golli.

O safbwynt y sampl hap o anfonebau, nid oedd yn bosib gwirio fod 2 daliad wedi ei wneud o fewn yr amser priodol gan nad oedd stamp y dyddiad derbyniwyd yr anfoneb yn y Cyngor. Gwelwyd bod 5 o'r anfonebau wedi eu talu o fewn yr amser penodol ond gwiriwyd bod tair anfoneb wedi bod yn hwyr yn cael eu talu. Ymchwiliwyd ymhellach i'r rhesymau dros hyn ond gwelwyd nad oedd gwendidau systemol, cynhenid o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn gyfrifol am hyn.

- **Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - Fframwaith ACGCC** *(Ymgynghoriaeth Gwynedd).* Cynorthwywyd swyddogion o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd i asesu sefyllfa ariannol cwmnioedd oedd wedi gwneud cais i fod ar fframwaith contractwr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbaeth Cymru.

- **Taliadau - Statws Cyflogaeth** *(Cyllid).* Mae'r term 'statws cyflogaeth' yn cyfeirio p'run ai yw gweithiwr yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, yn unol â diffiniad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a mae'n effeithio ar daliadau treth a chyfraniadau yswiriant cenedlaethol sydd yn ddyledus. Mae statws cyflogaeth yn ddibynnol ar amrywiol ffactorau a gall camgymeriad wrth ymdrin â statws gweithiwr arwain at orfod talu treth ychwanegol, cyfraniadau YG, llog, yn ogystal â chosbau a bennir gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion a rheolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy sicrhau bod taliadau i unigolion yn cael eu trin yn gywir a phriodol a bod didyniadau treth ac yswiriant cenedlaethol yn cael eu talu'n gywir. Ar gyfer yr archwiliad, detholwyd sampl o 82 anfoneb a gyfeirebwyd i godau gwariant penodol yn y cyfriflyfr. Yn dilyn adolygiad o'r anfonebau, adnabuwyd rhai anfonebau a ddylai dderbyn sylw pellach gan swyddogion priodol i sicrhau os yw'r unigolion wedi eu pennu gyda'r statws cyflogaeth gywir.

- **Cyflogau - Gweinyddu Tâl Salwch Statudol** *(Cyllid)* Er mai ond mewn amgylchiadau prin y byddai'n angenrheidiol i'r Cyngor dalu arian i aelod o staff fel tâl salwch statudol, mae'n ofyniad statudol bod cofnodion yn cael eu cynnal o'r symiau fyddai'n daladwy. Adolygwyd sampl o 20 absenoldeb salwch rhwng Ebrill 2011 ac amser yr adolygiad hwn. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod symiau SSP yn ymddangos yn gywir ac yn seiliedig ar ddyddiau absenoldebau staff, drwy eu cymharu â'r symiau disgwyliedig. Fodd bynnag, fe ddaeth i'r amlwg yn fuan yn yr adolygiad hwn bod nifer o achosion lle nad oedd y data o fewn modiwlau Adnoddau Dynol a Chyflogau yn cyd-fynd a'i gilydd ac, mewn rhai achosion, nid oedd cofnodion absenoldeb drwy salwch ar gyfer staff yn bodoli o gwbl o fewn y modiwl Cyflogau. Gwelwyd diffygion yn y trefniadau presennol o gyflwyno manylion absenoldebau salwch, ac er na ddarganfuwyd achos o golled ariannol yn y sampl, dengys nad yw'r hyn sydd yn cael ei adrodd am dâl salwch statudol yn gywir.

- **Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth** *(Gofal Cwsmer).* Roedd trefniadau wrth-gefn a pharhad busnes Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor wedi ei amlygu fel archwiliad yng nghynllun blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12. Gan fod y prosiect trosglwyddo systemau i'r amgylchedd rhithwir yn mynd rhagddo ar adeg yr archwiliad, a hwnnw yn ran sylweddol o'r datrysiad parhad gwasanaeth yn y tymor hir, cytunwyd i gynnal yr archwiliad llawn ar ôl ail chwarter 2012/13, yn unol ag amserlen cwblhau y prosiect. Nodwyd, wrth adolygu'r cynnydd hyd ddyddiad yr adolygiad, fod disgwyliad y byddai dogfennaeth llawn wedi ei gynhyrchu yn fuan i'w gynnal fel cynllun swyddogol y Gwasanaeth a canllawiau ymglymedig. O ran y prif systemau ariannol, nodwyd fod y systemau refeniw wedi eu trosglwyddo, a datrysiadau wedi eu amlinellu ar gyfer systemau cyflogau a taliadau. Mae'r archwilwyr yn gefnogol o amcanion y prosiect yma, a byddai ei ganlyniad yn derbyn sylw pellach fel rhan o gynllun archwilio 2012/13.

- **Modiwl Ariannol RAISE** *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*. Bwriad yr archwiliad oedd cynorthwyo'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyda datblygiad modiwl ariannol o fewn system RAISE, drwy adolygu y rheolaethau mewn lle i sicrhau cywirdeb taliadau, drwy adolygu y profion gwnaethpwyd ar y system a cynnal profion ychwanegol lle bod angen. Barn yr archwiliad oedd y gellid datgan sicrwydd yn y rheolaethau mewn lle ar gyfer modiwl ariannol RAISE.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Prosiectau Peilot yn Ymwneud ag Ymddygiad a Phresenoldeb *(Addysg)*
- Grant Datblygu Ymgynghoriaeth *(Addysg)*
- Grant Trefi Taclus *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Grant ERDF Prosiect Adfywio Ffisegol yng Ngogledd Cymru *(Rheoleiddio)*
- Grant TAITH *(Rheoleiddio)*
- Grant Mynediad i'r Arfordir (WEFO) *(Rheoleiddio)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | **Derbyniol** |
| Diogelu Data Teledu Cylch Cyfyng | Corfforaethol | | **Derbyniol** |
| Uned Cludiant Integredig | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | **Rhagorol** |
| Gwirio Dangosyddion Perfformiad | Strategol a Gwella | | **Dim Categori** |
| Rheolaeth Ffonau Symudol | Corfforaethol | | **Derbyniol** |
| Dyledwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2012**

Diogelwch TG mewn ysgolion
Comisiynu ar y Cyd gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31Mawrth 2013**

Ysgolion Cynradd - Trefniadau Lleihau Baich Gwaith Athrawon
Diogelwch Gwybodaeth

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ebrill 2012.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf *(Strategol a Gwella)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion *(Addysg)*
- Gweinyddu Benthyciadau Car *(Adnoddau Dynol)*
- Recriwtio - Profion Hunaniaeth *(Corfforaethol)*
- System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Adroddiadau Eithriad *(Cyllid)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Cynllun "Potensial" *(Economi a Chymuned)*
- Trefniadau Gwarchod rhag Legionella *(Gofal Cwsmer)*
- Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ionawr 2012 i 31 Mawrth 2012, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# DIOGELWCH TG MEWN YSGOLION
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad oedd sicrhau bod mesurau digonol mewn lle i ddiogelu seilweithiau TG yr ysgolion a'u ffeiliau a'u data.

Cwmpas yr Archwiliad

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn drwy gynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr Cynnal, cwmni rheolaeth TG yr ysgolion, ac wrth adolygu'r arferion a'r polisïau sydd mewn lle ac adrodd ar ganfyddiadau yn y maes diogelwch rhwydwaith.

Prif Ddarganfyddiadau

Nodwyd nad oes polisi TG canolog mewn bodolaeth y gellir ei orfodi ym mhob ysgol i sicrhau lefel uchel o sicrwydd. Mae Cynnal wedi drafftio polisi, ond ni ymddengys ei fod wedi bod yn destun trafodaeth bellach. Byddai Archwilio Mewnol yn annog yr Adran Addysg i fabwysiadu safon ddiogelwch ffurfiol ym mhob ysgol ac ystyried y polisi drafft fel gwaelodlin addas. Cydnabyddir bod sefyllfaoedd yn amrywio rhwng ysgolion uwchradd a cynradd o safbwynt natur y data ar eu rhwydwaith, ac y byddai yn briodol i lunio polisi yn unol â hynny.

Mae rhwydweithiau'r ysgolion wedi'u cysylltu i rwydwaith Cyngor Gwynedd, sydd angen cwrdd â safonau CoCo (Code of Connection), felly mae'n hanfodol sicrhau nad yw unrhyw ddiffygion o fewn safonau rhwydweithiau yr ysgolion yn cyfaddawdu hynny.

Nodwyd bod rhai dyfeisiadau wedi eu prynu yn y gorffennol sydd ddim yn cyrraedd y safonau diogelwch addas ac sy'n peri risg i seilweithiau'r ysgolion. Mae'n angenrheidiol bod y dyfeisiadau hyn oll yn cael eu hadnabod, a bod rhai eraill yn cael eu defnyddio yn eu lle. Gellir lleddfu'r risgiau hyn yn y dyfodol drwy sefydlu gwaelodlin ddiogelwch, fel rhan o bolisi y dylai pob dyfais lynu ati. Deallwyd fod Cynnal yn ymgymryd ag ymarferiad ar adeg yr archwiliad yma i adnabod unrhyw ddyfeisiau di-wifr anaddas gan unai eu hamnewid neu tynnu sylw staff yr ysgolion am y risgiau.

Mae rhai ysgolion yn cyflogi technegwyr i roi cefnogaeth i ddefnyddwyr ar y safle. Nodwyd bod adolygiadau o gyfrifon braint uchel mewn ysgolion gan Cynnal, ar adegau, yn cynnwys amrywiaeth o ddefnyddwyr, gan gynnwys technegwyr y safle ac eraill. Dylid caniatáu cyfrifon yn ôl y gofyn i gyflawni swyddi unigolion, ac, yn unol â'r egwyddor sylfaenol hon, dylid cadw'r cyfrifon braint uchel ar gyfer cyn lleied â phosib o unigolion. Dyliai'r cyfrinair ar gyfer y cyfrifon breintiau uchel fel Gweinyddwyr Domain ac Enterprise fod o dan ofal timau rheoli yr ysgolion, ac o safbwynt diogelwch ac atebolrwydd dylid ond defnyddio y cyfrifon yma ar yr adegau anocheladwy.

Mae strategaeth mewn bodolaeth ar gyfer creu copïau wrth gefn ac adfer trychineb ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus mewn achosion go iawn ble mae'r system wedi methu neu pan fod angen trosglwyddo data o'r ysgolion i swyddfa Cynnal. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau hyn wedi cael eu profi'n llawn ac yn ffurfiol, felly gan nad yw rhai o'r dyfeisiadau a ddefnyddir o reidrwydd yn ddatrysiadau tymor hir, mae angen adfer ffeiliau'n rheolaidd i sicrhau bod y mesurau'n parhau i fod yn ddigonol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw nad oes sicrwydd yn bodoli yng nghyswllt diogelwch TG mewn ysgolion gan nad oes modd dibynnu ar y mesurau sydd mewn lle. Mae prif argymhelliad y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid cytuno ar waelodlin priodol ar gyfer mesurau diogelwch TG o fewn ysgolion a dylid datblygu hynny yn ffurfiol er mwyn cynhyrchu polisi swyddogol i'w weithredu a'i orfodi.**

# RHEOLI PROSIECT CYNLLUN TREFNIADAETH YSGOLION
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw edrych ar drefniadau'r prosiect Trefniadaeth Ysgolion drwy edrych ar drefniant rheoli prosiect a'r broses o ddod i benderfyniad ar ad-drefnu dalgylchoedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Edrych ar drefniadau rheoli prosiect a'r broses o ymgynghori statudol ac unrhyw ymgynghori cyn hynny.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod trefniadau rheolaethol dda yn bodoli yn y broses o reoli'r prosiect ad-drefnu ysgolion Gwynedd.

Cafwyd ar ddeall fod camgymeriadau wedi digwydd yn y broses o ryddhau papurau ymgynghoriad statudol ac wrth ryddhau rhybuddion statudol mewn achosion blaenorol a gwelwyd fod y rhybuddion statudol wedi cael eu hail-ryddhau yn yr achosion hyn. Ers hynny, mae mwy o staff wedi eu penodi ar gyfer y tîm prosiect ac mae strwythur y tîm wedi ei newid. Cafwyd ar ddeall fod hyn yn galluogi'r tîm i fod yn fwy cywir yn eu gwaith. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd bod y tîm nawr yn cael mwy o drafodaethau gydag adrannau perthnasol eraill e.e. Eiddo a Chyllid cyn dechrau'r cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Rheoli Prosiect Cynllun Trefniadaeth Ysgolion gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CONSORTIWM ADDYSG GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau priodol yng ngweinyddiaeth Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol, ac yn unol â rheolau gweithdrefnau ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio y gwaith a wnaethpwyd gan y Consortiwm er mwyn rheoli a gweinyddu'r meysydd rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol parhaus o fewn ysgolion.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod gan Swyddfa'r Consortiwm Addysg drefniadau cyffredinol da ar gyfer rheoli'r gwaith a wneir gan y Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru. Er hynny, gwelwyd bod angen tynhau ychydig ar rai rheolaethau megis bod angen sicrhau os nad yw ysgolion yn derbyn ymweliad rheoli perfformiad blynyddol bod esboniad yn cael ei dderbyn a'i nodi ar y bas data. Hefyd o ran y rhaglen sefydlu broffesiynol i benaethiaid gwelwyd bod angen sicrhau bod ffurflen gwariant blynyddol ac adroddiad cynnydd yn cael eu darparu yn flynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod ymweliad yn cael ei wneud i bob ysgol ar gyfer asesu rheoli perfformiad yn flynyddol ac os nad yw ysgol yn derbyn ymweliad blynyddol dylai bod eglurhad yn cael ei dderbyn gan y Cynghorwr a dylid nodi yr eglurhad ar y bas data.**

- **Dylid sicrhau bod ffurflen gwariant blynyddol sydd wedi cael ei harchwilio gan archwilwyr yr awdurdod lleol yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â thelerau ac amodau Grant y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid.**

- **Dylid sicrhau o hyn allan bod adroddiad cynnydd yn cael ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unol â thelerau ac amodau Grant y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid.**

# ALLANOLI ARLWYO YSGOLION - ATEBOLRWYDD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gwerth am arian, safonau ansawdd ac atebolrwydd digonol yn cael eu cyflawni o fewn ysgolion uwchradd mewn perthynas â'u gwasanaeth arlwyo.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â'r ysgolion sydd ddim yn rhan o'r gytundeb arlwyo safonol gyda'r Adran Darparu a Hamdden, er mwyn gwirio eu trefniadau archebu bwyd i sicrhau bod gofynion angenrheidiol yn cael eu cwrdd, megis rheolau caffael y Cyngor, rheolau glendid a safonau ansawdd, gofynion statudol bwydydd iach a rheolau iechyd a diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 14 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 5 o'r rheolaethau hyn. Y prif fater i'w nodi a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd tystiolaeth fod yr ysgolion wedi defnyddio PrynwchiGymru (buy4wales) i archwilio neu i hysbysu am gyflenwyr i gyflawni bwyd/nwyddau i'r ffreutur yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a Rheolau Ariannol Ysgolion â Chyllideb Dirprwyedig, er hynny roedd tystiolaeth eu bod yn cymharu prisiau o ddydd i ddydd ac yn ymwybodol o ba gyflenwr sydd yn rhoi'r pris gorau iddynt.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Allanoli Arlwyo Ysgolion - Atebolrwydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y Cadeirydd / Llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw drefniant gaffael pan ragwelir fod cyfanswm unrhyw gytundeb yn debygol o fod yn fwy na'r trothwy'r gwariant a ganiateir i'r Pennaeth ei wneud.**

- **Dylid sicrhau fod y Llywodraethwyr yn rhan o unrhyw ddatblygiad i ddarparu cytundeb gyda'r cyflenwr sy'n cyflawni bwyd/nwyddau i'r ffreutur.**

# CANOLFAN HAMDDEN BLAENAU FFESTINIOG
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yn y Ganolfan er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu sampl o drafodion ariannol ar gyfer flwyddyn ariannol 2011/12 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc. Sicrhau hefyd bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod gan yr ysgol drefniadau cyffredinol da ar gyfer rheoli'r Ganolfan. Er hynny, gwelwyd bod angen tynhau ychydig ar y rheolaethau drwy gynhyrchu adroddiadau priodol o'r system ProEPOS ar gyfer monitro'r trafodion a wneir ar y system gan aelodau o staff.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng Nghanolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cysylltu gyda gwneuthurwyr y system ProEPOS a derbyn arweiniad ganddynt ar sut i gynhyrchu adroddiad dyddiol yn dangos dadansoddiad gwerthiant fesul cynnyrch/sesiwn. Dylid wedyn cynhyrchu'r adroddiad a'i gadw ar ffeil i gefnogi'r ffigyrau a gaiff eu bancio.**

- **Dylid cysylltu gyda gwneuthurwyr y system ProEPOS a derbyn arweiniad ganddynt ar sut i gynhyrchu adroddiad sydd yn dangos unrhyw ad-daliad a wneir o'r system a dylid wedyn sicrhau fod yr adroddiad yn cael ei chynhyrchu yn rheolaidd a'i fonitro.**

- **Dylai'r sawl sydd yn agor y bag arian sydd dan sêl yn sêff yr ysgol sicrhau fod gweithwyr eraill yn bresennol pan fydd yn agor a chyfrif yr arian, rhag ofn bod unrhyw anghysondebau yn yr arian.**

- **Dylid symud ymlaen i sefydlu cytundeb gyda chwmni priodol i wasanaethu peiriannau'r Ganolfan yn rheolaidd.**

# YSGOLION CYNRADD - LLYWODRAETHU
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd Gwynedd yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â gofynion statudol, a chyfarwyddiadau Llywodraethwyr Cymru ac Estyn.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewisiwyd sampl o 9 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd i'w harchwilio.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod yna drefniadau cyffredinol da ar gyfer Llywodraethu Ysgolion Cynradd yn y sampl o ysgolion a archwiliwyd, ond fod angen tynhau ychydig ar rai rheolaethau. Mae angen sicrhau fod ffurflen buddiant busnes yn cael ei gwblhau yn flynyddol gan bob aelod o'r corff llywodraethol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Llywodraethu Ysgolion Cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod llawlyfrau ysgol yn cynnwys y wybodaeth berthnasol megis adroddiadau cymharol ddiweddaraf ar berfformiad yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn ogystal â manylion ffigyrau presenoldeb ac absenoldeb blynyddol yn eu llawlyfrau.**

- **Dylai ysgolion barhau i ymdrechu i recriwtio llywodraethwyr ac dylid cadw tystiolaeth o'r broses fel cadarnhad bod yr ysgol wedi gwneud ymdrech teg i cydymffurfio gyda'r offeryn llywodraethol.**

- **Dylid sicrhau bod cofnodion yn cael eu gwneud a'u cadw o bob cyfarfod pwyllgor gan gynnwys pob penderfyniad a phwy sy'n eu gweithredu.**

- **Dylid sicrhau os yw'r cyrff llywodraethol ysgolion yn trafod cyllidebau ac yn derbyn y gyllideb fod cofnod yn cael ei wneud o'r cyfarfod pryd wnaethpwyd y penderfyniad.**

- **Dylid sicrhau bod gan bob ysgol ffurflen buddiant cyfredol ar gyfer bob aelod o'r corff llywodraethol a dylid eu diweddaru'n flynyddol drwy ddosbarthu'r ffurflenni yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn.**

# YSGOLION CYNRADD - TREFNIADAU LLEIHAU BAICH GWAITH ATHRAWON
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod athrawon a phenaethiaid yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus iddynt yn unol â'r cytundeb cenedlaethol sy'n ymdrîn â baich gwaith athrawon a'r angen i gael cydbwysedd rhesymol rhwng bywyd gwaith ac adref.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio bod swyddog wedi ei benodi i gwblhau gwaith gweinyddol yn yr ysgol a bod yr athrawon yn derbyn yr amser di-gyswllt yn wythnosol ar gyfer cynllunio a pharatoi. Gwirio hefyd fod penaethiaid yn cael amser di-gyswllt i gwblhau gwaith rheoli. Anfonwyd holiadur i'r athrawon sy'n gweithio yn yr ysgolion fel gallent roi atebion anhysbys ar eu teimladau hwy o'u baich gwaith.

Dewiswyd sampl o 6 o ysgolion cynradd.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau o'r archwiliad hwn yw bod rhai athrawon ddim yn derbyn amser digyswllt i allu cwrdd â'u cyfrifoldebau rheoli ac arwain ychwanegol ac nad oedd amserlenni athrawon llanw wedi eu hardystio'n briodol mewn un ysgol.

Fel cymorth i gwblhau'r archwiliad yma, anfonwyd holiadur i'r athrawon sy'n gweithio yn yr ysgolion yn y sampl a archwiliwyd i'w galluogi i roi atebion rhydd yn anhysbys. Allan o 23 holiadur anfonwyd allan, derbyniwyd 17 wedi eu llenwi yn ôl. Nododd 59% y farn nad oes ganddynt gydbwysedd rhesymol rhwng eu bywyd gwaith a chartref gyda llawer yn nodi'r rhesymau am hyn fel pwysau gwaith cyn arolwg, llawer mwy o waith papur ac ambell un wedi nodi disgwyliadau ar ôl ysgol megis gwaith cymuned a chwaraeon.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Lleihau Baich Gwaith athrawon ysgolion cynradd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Ni ddylai Pennaeth ofyn i athro gyflenwi yn ystod ei amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA), heblaw fod achos teilwng am hynny a dylid ail-amserlennu'r amser CPA i'r athro.**

- **Petai hyfforddiant athro yn digwydd syrthio ar yr un diwrnod a'u cyfnod CPA, dylid ceisio sicrhau fod cyfnod CPA yn cael ei ail-amserlennu. Yn ychwanegol, petai hyfforddiant yn fwy tueddol o ddisgyn ar ddiwrnod penodol o fewn yr wythnos dylid ystyried peidio amserlennu cyfnod CPA athrawon ar y diwrnod hwnnw er mwyn sicrhau yr un tegwch i bob athro.**

- **Ni ddylai unrhyw un lofnodi unrhyw daflen yn enw person arall ar unrhyw achlysur. Dylid sicrhau fod aelod arall o staff yn llofnodi amserlenni athrawon llanw pan nad yw'r Pennaeth ar gael.**

- **Dylid cadw cofnod o oriau gwaith athrawon llanw yn yr ysgol a gwirio hwn yn erbyn adroddiad o'r system SIMS sy'n dangos yr oriau ar gyfer staff llanw sydd wedi ei dalu yn fisol.**

# CYSONI BANC - ADOLYGIAD O REOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r *Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol*, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**"10. Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."**

Caiff trefniant cysoni banc ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle ac wedi ei ddogfennu ar gyfer cynnal cysoniadau banc yn effeithiol, amserol, yn gyflawn a chywir a sicrhau bod trefniadau monitro digonol mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer cynnal cysoniadau banc a sicrhau bod canllawiau ar gael i swyddogion. Dethol sampl o cysoniadau banc yn 2011-12 a sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda'r gweithdrefnau. Sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu hadolygu a'i harwyddo'n rheolaidd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelodd yr archwiliwr fod gan yr Uned Cyfrifeg Canolog reolaethau mewn lle o fewn y broses o gysoni banc ac adolygu sieciau heb eu cyflwyno, gyda'r cysoniadau yn cael eu cwblhau yn rheolaidd ar sail dyddiol, misol a chwarterol. Mae gan yr Uned swyddogion penodedig ar gyfer cynnal y cysoniadau banc gyda threfniadau digonol mewn lle i gwblhau'r cysoniadau mewn cyfnod o absenoldeb. Mae'r cysoniadau banc yn derbyn adolygiad gan uwch swyddog neu reolwr o fewn yr uned gyda thystiolaeth ddigonol yn cael ei gadw i gefnogi'r cysoniadau. Mae gan yr Uned ganllawiau ar gael i swyddogion er mwyn eu cymorth yn y broses cysoni banc.

Ar gyfer yr Uned Incwm, gwelodd yr archwiliwr fod cysoniadau banc yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ar sail dyddiol ac yn fisol, gyda swyddog penodedig o fewn yr Uned yn cynnal y dyletswyddau cysoni. Yn ogystal, mae gan yr Uned drefniadau ar gyfer delio â sieciau sy'n cael eu gwrthod gan y banc. Yn dilyn newidiadau yn yr Uned Incwm, maent yn y broses o hyfforddi swyddog yn y broses cysoni ar gyfer dirprwyo mewn cyfnod o absenoldeb. Mae gan yr Uned ganllawiau ar gyfer cymorth swyddogion o'r broses cysoni ddyddiol ond nid oes rhai wedi eu cynhyrchu ar gyfer y broses cysoni misol. Darganfuwyd bod anghysondebau gyda'r cysoniadau misol a gynhaliwyd gan yr Uned Incwm, a bod yr Uwch Swyddog Incwm yn ardystio'r cysoniadau gan nodi ei fod yn ymwybodol o'r anghysondeb a'r angen i'w ddatrys. Mae'r anghysondeb yma eisoes yn derbyn sylw gan swyddogion yr uned i'w ddatrys cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cynhyrchu canllawiau ar sut i gwblhau cysoniadau misol yn yr Uned Incwm.**

# PRIF SYSTEM GYFRIFO
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r brif system ariannol a'r prosesau cyfrifo sy'n ei amgylchynu.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu'r prif drefniadau cyfrifo ar gyfer y cyfriflyfr cyffredinol, rheoli'r gyllideb, strwythur codio'r cyfriflyfr, y systemau bwydo, siwrneli, trefniadau diwedd y flwyddyn a'r system gyfrifiadurol. Nid yw'r broses cau cyfrifon yn rhan o'r archwiliad hwn.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd fod dyletswyddau dros weinyddu'r brif system gyfrifo o ddydd i ddydd yn parhau i fod wedi eu dyrannu i swyddogion penodedig o fewn yr Adran Cyllid. Mae cyfleuster yn y system sydd yn cadw trywydd archwilio o unrhyw newidiadau ac addasiadau sy'n cymryd lle yn y system. Un o'r gwendidau a ddarganfuwyd oedd diffyg canllawiau manwl petai gweinyddwyr y brif system gyfrifo ar gyfnod o absenoldeb. Y gweinyddwyr sy'n gyfrifol am sefydlu a dileu mynediad swyddogion i'r brif system gyfrifo. Mae'n angenrheidiol bod y swyddogion yn darparu cyfrinair a rhif defnyddiwr unigryw i dderbyn mynediad. Archwiliwyd y rhestr defnyddwyr cyfredol a darganfuwyd achosion ble mae swyddogion yn parhau i fod gyda mynediad i wahanol agweddau o'r brif system gyfrifo serch y ffaith eu bod wedi symud ymlaen i swydd fewnol arall neu wedi gadael cyflogaeth y Cyngor. Mae gan yr Adran Cyllid reolaethau yn eu lle er mwyn sicrhau cywirdeb siwrneli sy'n cael eu mewnbwydo i'r brif system gyfrifo gyda gosodiad mewn lle i rwystro swyddogion rhag cynnal siwrnel un ochrog, a gwiriwyd fod y jiwrneli yn 2011-12 yn balansio i sero. Nid yw jiwrneli yn derbyn awdurdodiad gan uwch swyddog neu reolwr cyn cael eu postio ar y brif system gyfrifo.
Darganfuwyd achosion o'r rheolwyr Cyllid yn darparu manylion cyllidebau agoriadol yn hwyr i weinyddwyr y brif system gyfrifo ar gychwyn y flwyddyn ariannol. Canlyniad hyn oedd bod y cyllidebau yn cael eu mewnfwydo yn hwyr i'r brif system gyfrifo gyda'r rhan fwyaf yn cael eu postio ar ôl y terfyn amser.
Mae gan yr Adran Cyllid gymhwysiad ymholi er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol ar wahanol agweddau megis gwariant/taliadau, incwm, cyllidebau a.y.b. Mae'r cymhwysiad ymholi yma yn rhoi'r gallu i'r Adran Cyllid baratoi adroddiadau ar gyfer y pwyllgorau perthnasol.
Gwelwyd tystiolaeth bod yr Adran Cyllid yn cynnal cysoniadau ar y brif system gyfrifo ar rai agweddau ar sail fisol ac eraill yn chwarterol a gwelwyd bod trefniadau priodol ar gyfer gwirio a mantoli'r data sydd yn bwydo o systemau eraill i'r brif system gyfrifo. Nodwyd bod mesurau priodol mewn lle ar gyfer datblygu'r brif system gyfrifo, ond bod sgôp i ffurfioli'r trefniadau yma.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y Prif System Gyfrifo gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa'r rheolwyr o'r angen i hysbysu'r Rheolwr Systemau os bydd defnyddiwr CedAr unai yn gadael y Cyngor neu yn newid swydd.**

- **Dylai'r Rheolwr Sustemau atgyfnerthu'r neges o bwysigrwydd cyflwyno cyllidebau yn brydlon.**

- **Dylid cyfuno'r wybodaeth ar sut i wenyddu'r system CedAr sydd wedi eu ddogfennu mewn sawl ddogfen wahaol i un llawlyfr.**

# PENSIYNAU - ADRODDIAD BLYNYDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliad 34 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008.

Cwmpas yr Archwiliad
Bydd yr archwiliad yn cynnwys gwirio fod yr holl elfennau hanfodol fel y manylir yn Rheoliad 34 yn gynwysedig yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2010-11, ynghyd â dilyn ymarfer gorau fel a gyhoeddir gan weithgor CIPFA/PRAG[1]. Nid oedd gwirio'r cyfrifon yng nghwmpas yr archwiliad hwn.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ei gyflwyno i gyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd yng Ngorffennaf 2011. Gwelwyd bod cynnwys yr adroddiad yn cydymffurfio â mwyafrif gofynion y ddeddfwriaeth, ag eithrio cynnwys datganiad gan yr actiwari a datganiadau i gyd-fynd â'r cyfrifon. Mae'r datganiadau hyn yn bodoli ond oherwydd amseriad y cyfarfod blynyddol, nid oes modd cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn yr adroddiad. Gwelwyd bod y Gronfa wedi mabwysiadu ymarfer da fel yr argymhellir gan PRAG ond nid ar gyfer pob elfen. Fodd bynnag, rhaid ystyried ymarferoldeb a'r gwerth ychwanegol o gyflawni pob agwedd o'r canllaw, a hefyd mae'n hanfodol cadw mewn cof fod y ddogfen yn ei ffurf gyfredol yn swmpus ac y buasai ychwanegu tudalennau yn cynyddu'r gost o'i gynhyrchu a'i ddosbarthu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yng nghynnwys Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn, ond mae rhaid agweddau lle gellir cryfhau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod datganiad/tystysgrif gan yr actiwari yn gynwysedig yn yr adroddiad blynyddol.**
- **Dylid ystyried oedi a chynnal y cyfarfod blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, oddeutu mis Hydref, fel y gellir sicrhau bod y Datganiad o'r Cyfrifon yn gywir a chynnwys adroddiad yr archwilwyr allanol. Hefyd dylid cynnwys datganiad cyfrifoldebau a'r nodiadau llawn gyda'r cyfrifon.**

[1] Pensions Research Accountants Group

## SYSTEMAU TRETHIANT - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r *Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol*, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**"10. Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."**

Caiff y system Treth Cyngor ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod cyfansymiau biliau Treth Cyngor wedi cael eu gosod yn gywir ac yn unol â'r symiau a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ogystal ag awdurdodau lleol eraill. Sicrhau bod y cyfansymiau eiddo yng Ngwynedd wedi cael eu cofnodi'n gywir ar y system ac yn cyd-fynd ag adroddiadau Swyddfa Brisio. Cadarnhau bod y cyfrif ariannol wedi cael ei ddiweddaru'n briodol a bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer adennill dyledion treth cyngor yn ogystal â sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a rheoli perfformiad yr Uned.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a'r gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a dosbarthu Treth Cyngor 2011-12.

Prif Ddarganfyddiadau

Adolygwyd priodoldeb y rheolaethau allweddol megis cywirdeb codi biliau, casglu a chysoniadau Treth Cyngor 2011-12 ynghyd â'r trefniadau rheoli perfformiad. O ganlyniad, gwelwyd bod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer cymeradwyo a gosod trethi 2011-12, bod rheolaethau dros gynnal cysoniadau yn erbyn y nifer o filiau ac eiddo yn ogystal ag yn erbyn y cyfriflyfr a bod trefniadau addas ar gyfer anfon gwybodaeth i'r Swyddfa Brisio. Gwelwyd bod rheolaethau ar gyfer sicrhau bod ôl ddyledion yn cael eu targedu, bod gwiriadau drwg ddyledion yn cael eu cynnal a'u hasesu a bod trefniadau ar gyfer cofnodi a gwirio perfformiad a thargedau gwaith yr Uned. Yn ogystal gwiriwyd sampl o gyfansymiau trethi a gafodd eu codi, dileu a chysoniadau eiddo a chysoniadau cyfriflyfr. Ymddengys o'r gwiriadau bod yr Uned Trethi wedi gweithredu ar bob achos yn gywir.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Systemau Trethiant - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# TAI GYDA CHEFNOGAETH
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch sampl o Dai Gyda Chefnogaeth yn briodol ac yn unol â rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor tra'n caniatau'r cleientiaid i fyw'n lled-annibynnol.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn 2010/11 a 2011/12 yn ôl y Cyfriflyfr Ariannol ynghyd â threfniadau rheolaeth y ty.

Prif Ddarganfyddiadau
Yn dilyn adolygiad ail-strwythuro staff yn ddiweddar, lleihawyd y nifer o reolwyr Tai gyda Chefnogaeth yng Ngwynedd. I gyflawni hyn, mae'r rheolwyr tai bellach yn rheolwyr ardal ac yn gyfrifol am fwy o dai nag oeddynt cyn yr ail-strwythuro. Golyga hyn bod y rheolwyr wedi cymryd yr awenau dros dai sy'n newydd iddynt. Yn deillio o hyn, mae pryderon wedi codi gan y rheolwyr bod y trefniadau gweinyddiaeth gwelwyd yn eu tai 'newydd' ddim yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, a bod trefniadau yn gyffredinol anghyson ar draws y cartrefi.

Fodd bynnag, gwelwyd o'r archwiliad yma bod camau priodol wedi eu cymryd gan y rheolwyr ardal i ddechrau cyflwyno rheolaethau mewnol digonol i'r cartrefi yma, sy’n seiliedig ar y trefniadau yn eu tai gwreiddiol.

Wrth gymryd i ystyriaeth, ar amser yr archwiliad, bod y rheolwyr yn parhau’n eithaf newydd yn eu rôl fel rheolwyr eu tai ychwanegol, darganfuwyd fod cynnydd digonol wedi ei wneud hyd yn hyn, gyda lle i wella eto gydag amser. Gwelwyd enghreifftiau ble mae trefniadau wedi eu cyflwyno gan y rheolwyr, ond bod diffyg gweithrediad llawn gan y gofalwyr am ba bynnag reswm. Gwelwyd bod trefniadau ffeilio a chadw dogfennau yn parhau i fod yn fater o bryder, gan nad oedd modd cynnal ambell brawf archwilio oherwydd dogfennau coll, ond disgwylir i wendidau fel hyn gryfhau wrth i weithwyr arfer gyda'r trefniadau newydd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Tai gyda Chefnogaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai dau aelod o staff fod yn bresennol wrth weinyddu meddyginiaeth, pryd bynnag sy'n bosib. Dylid hefyd llofnodi'r cofnodion yn hytrach na thicio.**
- **Er mwyn cysondeb, dylid penderfynu os oes angen cadw llyfr cofnodi amser cyrraedd a gadael gofalwyr, fel rheolaeth i wirio os yw'r oriau hawliwyd yn gywir.**
- **Buasai'n ymarfer da petai cytundeb tenantiaeth diweddaraf pob cleiant, wedi ei arwyddo, yn y ty.**
- **Dylid sicrhau bod canllawiau tân yn cael eu llunio a'i gosod ym mhob ty, fel eu bod yn weledol i bawb.**
- **Dylid newid cyfuniad diogellau yn reolaidd.**

# NEUADDAU PENTREF - CYNLLUN GWEITHREDU
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw gwirio trefniadau symud a chau'r grant i neuaddau pentref drwy edrych ar y cynllun gweithredu a sut y'i trosglwyddwyd i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Edrychwyd hefyd ar y gefnogaeth a roddwyd i bwyllgorau'r neuaddau pentref i allu ymdopi heb y grant.

Cwmpas yr Archwiliad

Edrych ar y trefniadau cau a sicrhau fod swyddogion wedi dilyn y cynllun gweithredu ar gyfer diddymu a throsglwyddo elfen o'r grant o dan gyfrifoldeb y Gwasanaeth Ieuenctid.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y trefniadau arfaethedig wedi eu dilyn, gyda chymorthfeydd wedi eu darparu i bwyllgorau'r neuaddau pentref a'u rhoi mewn cyswllt gyda'r Swyddog Adfywio perthnasol i'w hardal. Ymgymerwyd ag astudiaeth gan ymgynghorydd allanol ar sut i uchafu cynaladwyedd a hyfywdra ariannol y neuaddau. Cadarnhawyd fod crynodeb gweithredol o'r asesiad yma wedi ei anfon i'r pwyllgorau neuadd oedd yn cynnwys argymhellion i'w cynorthwyo. Derbyniwyd cadarnhad hefyd fod yr Adran Economi a Chymuned wedi dechrau rhaglen waith ar yr argymhellion oedd wedi eu cyfeirio atynt hwy.

Yn ogystal â hyn, edrychwyd ar drefniadau pwrcasu gwasanaeth ymgynghorydd i ymgymryd â'r astudiaeth a gwelwyd fod rheolau Cyngor Gwynedd wedi eu dilyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Neuaddau Pentref - Cynllun Gweithredu gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# DIOGELWCH GWYBODAETH
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a bod staff y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â phrosesu, cadw, diogelu a gwaredu gwybodaeth, boed y wybodaeth ar ffurf electronig neu ar bapur a bod gwyliadwriaeth dros ddata personol ac yn arbennig data personol sensitif.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewis sampl ar hap o adrannau'r Cyngor sydd yn casglu a phrosesu data personol a chynnal gwiriadau i sicrhau bod yr adrannau yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data, yn benodol:

- Pwysigrwydd prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon
- Safonau gwybodaeth - cadw data personol yn gywir ac yn gyfoes
- Hawl mynediad a threfniadau diogelu'r wybodaeth
- Trefniadau argyfwng, adfer data a dileu data a gwaredu gwybodaeth

Ymholi'r adrannau beth yw eu trefniadau ar gyfer diogelu cyfarpar a ddefnyddir gan staff sydd yn gweithio o adref.

Ni fydd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gan y bydd rhain yn destun archwiliadau ar wahân yn 2011/12 (ffeiliau papur) a 2012/13 (ffeiliau electronig).

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod gan y Cyngor bolisïau corfforaethol priodol mewn lle ar gyfer trefniadau diogelu gwybodaeth. Gwelwyd bod swyddogion y Cyngor yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau a bod sylw yn cael eu derbyn pan yn briodol, fodd bynnag ymddengys bod ddiffyg cysondeb mewn gweithredu mewn trefniadau diogelu data personol. Gwelwyd nad oedd pob sefydliad yn ymlynu at drefniadau diogelu TG ac yn cadw manylion personol o dan glo. Gwelwyd bod diffyg trefniadau argyfwng mewn lle ar gyfer ddelio â digwyddiadau anrhagweledig, ac nad oedd trefniadau wrth gefn ar gyfer dogfennau bapur lle gall colled o'r papurau yma amharu ar wasanaeth y Cyngor. Gwelwyd bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer rheoli defnydd systemau electronig ond diffyg rheolaeth pan ddaw i weithredu ar ffeiliau papur.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod trefniadau i adnewyddu hyfforddiant CETIS mewn lle fel bod materion diogelu gwybodaeth gyfredol yn derbyn sylw.**

- **Dylid codi ymwybyddiaeth holl staff o'r angen i ddarparu datganiad ddeddf diogelu data/hysbysiad preifatrwydd ar ffurflenni casglu gwybodaeth sydd yn cael eu dosbarthu gan y Cyngor.**

- **Dylid sicrhau bod gan wasanaethau'r Cyngor ddarpariaeth storio briodol ar gyfer ffeiliau bapur sydd angen eu cadw.**

# SYSTEM RHEOLI PERTHYNAS CWSMER
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau sydd mewn lle i brosesu a rheoli darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid y Cyngor drwy'r system rheoli perthynas cwsmer (CRM).

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r mesurau sydd yn eu lle i gofnodi'r ceisiadau am y gwasanaethau sydd yn rhan o'r system CRM, y trefniadau a sefydlwyd i sicrhau fod y ceisiadau yn cael eu cyflwyno i'r darparwyr gwasanaeth yn gyflawn a chywir, a'r camau i sicrhau fod modd cynnal perthynas dderbyniol gyda chwsmeriaid fel rhan o'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer darparu gwasanaeth drwy'r system rheoli perthynas cwsmer (CRM) ond bod amrywiaeth yn bodoli ar draws y gwasanaethau. Gwelwyd bod y darparwyr gwasanaeth yn gallu gweithredu ar y ceisiadau ac ail gyfeirio'r ymholiadau yn ôl at Galw Gwynedd os oes angen. Nodwyd bod sgôp i adolygu rhai o weithrediadau Galw Gwynedd er mwyn gwella eu gwasanaeth i'r darparwr. Yn ogystal, gwelwyd bod posibilrwydd i ddatblygu'r system CRM ymhellach i ymgorffori swyddogaethau systemau unigol sydd mewn defnydd ar hyn o bryd a buasai hynny yn disodli costau cynnal y systemau hynny.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweithrediad y System Rheoli Perthynas Cwsmer gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid anelu i sicrhau bod gweithdrefn mewn lle i hwyluso'r ffordd o adnabod bod cais am wasanaeth wedi ei godi.**

# COMISIYNU AR Y CYD GYDA BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefn gadarn rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd Lleol a defnyddiwr y gwasanaeth, gan gynnwys cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael adborth ar y cleientau maent yn cyfrannu arian tuag atynt.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu'r trefniadau a'r gweithrediad ynghlwm â'r gontract rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol, y Cyngor a'r defnyddiwr gwasanaeth.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod enghreifftiau o weithredu yn unol ag egwyddorion darparu gwasanaeth i unigolion bregus gan ddefnyddio cytundebau rhwng y Cyngor a darparwyr y gwasanaeth. Fodd bynnag, gwiriwyd nad oedd y cytundebau hyn yn cael ei monitro yn gywir sydd yn cynyddu'r risg o wasanaeth priodol ddim yn cael ei ddarparu i'r unigolyn, neu risg i'r unigolyn. Gwelir nad oedd cytundeb rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â chyfrannu arian tuag at y gwasanaeth i'r unigolion bregus. Dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r rheolaethau o fewn y maes archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Comisiynu ar y Cyd gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cael cytundeb wedi ei arwyddo rhwng y Cyngor â'r Bwrdd Iechyd yn nodi'n glir telerau ac amodau, gan gynnwys datgan faint sydd yn cael eu cyfrannu tuag at gostau unigolion gan bob awdurdod. Dylid ychwanegu yn y gytundeb bod adborth yn cael ei roi i'r Bwrdd Iechyd am y gwasanaeth mae'r unigolyn yn ei dderbyn.**

- **Dylid sicrhau bod telerau ac amodau y gytundeb PAN Wales yn cael ei monitro gan swyddogion perthnasol.**

- **Ymhellach, dylid sicrhau bod telerau ac amodau (yn rhan 'D') y gytundeb PAN Wales yn cael ei fonitro yn rheolaidd gan swyddog perthnasol hefyd, yn ogystal â'r darn cyfatebol yng nghytundeb Anabledd Dysgu. Dylid cadw cofnod o'r adolygiad a rhoi adborth i'r Bwrdd Iechyd o'r gwasanaeth (yn yr achosion ble maent yn cyfrannu tuag at y costau).**

- **Awgrymir wrth lunio cytundeb rhwng Cyngor a Bwrdd Iechyd dylid ychwanegu bod adborth yn cael ei rhoi i Bwrdd Iechyd am y gwasanaeth mae'r unigolyn yn ei dderbyn.**

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - DIOGELWCH FFEILIAU A GWYBODAETH PAPUR

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Diben yr archwiliad oedd adolygu trefniadau diogelwch ffeiliau a gwybodaeth ar ffurf papur oddi fewn Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ymchwilio ymhle cedwir cofnodion, ffeiliau a gwybodaeth yr Adran.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd sut a lle roedd ffeiliau papur yn cael eu cadw. Hefyd, gwirwyd pa fynediad oedd gan swyddogion i ffeiliau a gwybodaeth gyfrinachol ac os oedd y wybodaeth yn cael ei gadw mewn man diogel. Nid yw'r archwiliad yn cynnwys adolygiad o ffeiliau cyfrifiadurol; mae hynny dan adolygiad gan Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd, a byddant yn destun archwiliad yn ystod 2012/13.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod engreifftiau o weithredu yn unôl a threfniadau diogelwch ffeiliau a gwybodaeth. Gwelir bod trefniadau cadarn ar ran cadw ffeiliau dan glo a diolgelwch allweddi, a bod cysondeb ar gyfer diogelwch ffeiliau mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, gwelir bod gwendidau o ran canllawiau ac polisi cadw diweddar sydd yn achosi ychydig o anhrefn i swyddogion.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb gweithredol Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth Papur gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Awgrymir mabwysiadu canllawiau generig ar gyfer diogelwch ffeiliau i holl dimoedd yr adran, sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Amddiffyn Data ac yn arwain at gysondeb ar draws yr Adran.**
- **Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol yn mynychu'r cwrs hyfforddiant Diogelu Data cyn gynted â phosib.**
- **Awgrymir dylid cael cyfarwyddyd ysgrifenedig ar gyfer trefniadau i staff fynd a ffeiliau allan o'r swyddfeydd, â'r drefn o'u dychwelyd.**
- **Awgrymir dylid cael cysondeb ar draws y gwasanaethau ar gyfer trefniadau logio ffeiliau mewn ac allan o'r swyddfeydd.**
- **Awgrymir cael cyfarwyddyd clir ar gyfer adolygu ffeiliau er mwyn cael cysondeb ar draws y gwasanaeth. Dylai'r archwiliwr arwyddo a dyddio y ffeiliau i gadarnhau bod yr adolygiad wedi cymryd lle.**
- **Awgrymir dylid gwirio'r sytem RAISE yn chwarterol i sicrhau nad oes cofnod dyblygol o gleientau yn bodoli.**
- **Dylid nodi ar y system RAISE lleoliad unrhyw ffeil papur.**
- **Mae angen adolygu / diweddaru polisi cadw yr Adran, ei gymeradwyo gan y swyddogion perthnasol, ac yna ei gylchredeg i bob swyddog perthnasol er mwyn sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol ac yn deall ei gynnwys.**

# DETHOL CONTRACTWYR - AMDDIFFYN YR ARFORDIR
## Ymgynghoriaeth Gwynedd

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau caffael Uned Amddiffyn yr Arfordir er mwyn sicrhau bod yr Uned yn cydymffurfio gyda rheolau caffael ac yn arddangos ymarfer da wrth ddethol contractwyr i gwblhau gweithiau.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Cwmpas yr archwiliad oedd gwirio ffeiliau gwaith unigol Uned Amddiffyn yr Arfordir er mwyn sicrhau bod tystiolaeth ddigonol yn bodoli i warantu bod trefniadau tendro'r Uned yn dilyn hanfodion caffael. Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi mabwysiadu dull electronig o weithio, ac felly gan fod disgwyl i'r prif ddogfennau fod wedi eu ffeilio'n electronig, cynhaliwyd yr archwiliad drwy wirio ffeiliau sydd wedi ei gosod ar ddreif cyfrifiadurol yr Adran.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>

Fel y nodir yng nghwmpas yr archwiliad, cynhaliwyd y gwaith hwn drwy wirio ffeiliau electroneg yn unig, ac oherwydd hyn fe all yr archwiliwr ond archwilio'r dystiolaeth oedd i law. Gwelwyd bod bylchau yn y drefn gaffael mewn rhai prosiectau, ond ni all yr archwiliwr roi sicrwydd bod hyn oherwydd diffygion yn nhrefniadau'r Uned neu wallau yn y drefn ffeilio electroneg. Er bod yr archwiliad wedi edrych ar brosiectau Uned Amddiffyn yr Arfordir mae nifer o'r argymhellion yn berthnasol i unedau eraill o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau caffael Uned Amddiffyn yr Arfordir gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried gosod ffolder "Caffael" fel ffolder safonol.**
- **Argymhellir bod yr Uned yn derbyn tri dyfynbris os ydynt yn ystyried gosod gwaith i gwmnïau sy'n cael eu rheoli neu ym mherchnogaeth cyn-swyddogion o Cyngor Gwynedd, a hynny er mwyn gallu arddangos hygrededd a thryloywder yn y penderfyniad i'w comisiynu.**
- **Dylai Ymgynghoriaeth Gwynedd wneud dadansoddiad budd cost (cost benefit analysis) o ofyniad am ddargadw arian mewn cytundebau gwerth isel.**
- **Dylid sicrhau bod cofrestr agor tendrau yn gofnod cywir o'r prisiau sydd wedi eu dychwelyd i'r Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod tystiolaeth i ddangos fod yr Uned yn ymhél dyfynbrisiau am waith dros £5,000.**
- **Dylai Ymgynghoriaeth Gwynedd sicrhau bod strategaeth gaffael yn cael ei baratoi cyn penderfynu pwrcasu'r gwaith er mwyn sicrhau bod y drefn gaffael fwyaf effeithiol yn cael ei ddefnyddio wrth bwrcasu gweithiau (e.e. "spot pricing", fframwaith etc).**